CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r:	**Cabinet**
Dyddiad y Cyfarfod:	**6ed Rhagfyr 2022**
Teitl:	**Strategaeth Dementia Rhanbarthol Gorllewin Cymru a chynigion Ceredigion ar gyfer datblygu Cynllun Gweithredu Lleol**
Pwrpas yr adroddiad:	**Hysbysu'r Cabinet am fanylion y Strategaeth Dementia Rhanbarthol a gofyn am gymeradwyaeth i barhau â'r rhaglen ymgysylltu lleol i gefnogi'r gwaith o ddatblygu Cynllun Gweithredu Dementia lleol.**
Er:	**Gwybodaeth a Penderfyniad**
Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:	**Y Cynghorydd Alun Williams, Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet ar gyfer Gydol Oes a Llesiant**

CEFNDIR:

Yn sgil cyhoeddi nifer o ddogfennau cenedlaethol gan gynnwys yr Archwiliad Cenedlaethol o Ofal Dementia, Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Dementia 2018 – 2022, Llwybr Safonau Gofal Dementia Cymru 2021 ac yn fwy diweddar, Siarter Ysbytai sy'n Deall Dementia yng Nghymru, gwelwyd bod angen gwella gofal a phrofiad pobl sy'n byw â dementia yng ngorllewin Cymru.

Mae Partneriaeth Gofal Canolbarth Cymru yn dod â sefydliadau o'r sector statudol, y trydydd sector a'r sector annibynnol ynghyd er mwyn integreiddio a thrawsnewid iechyd, gofal a chymorth yn y rhanbarth.

Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol statudol yn goruchwylio gwaith Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru.

Mae'r Grŵp Llywio Dementia Rhanbarthol yn dod o dan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr o bob rhan o'r Bartneriaeth. Mae'n cynnig ffordd ar gyfer datblygu dull gweithredu rhanbarthol wrth ofalu am bobl sy'n byw gyda dementia a'u teuluoedd. Wrth ddatblygu'r Strategaeth, mae'r Grŵp hwn yn gweithio'n agos gydag ymgynghorwyr allanol o'r enw Attain, a bydd ganddo rôl allweddol wrth fwrw ymlaen â chamau nesaf y gwaith.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid drwy'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol (y Gronfa Gofal Integredig gynt) i gefnogi gwelliannau mewn gofal a chymorth ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia a'u teuluoedd. Caiff y cyllid hwn ei reoli drwy'r Grŵp Llywio Dementia a bydd yn hanfodol bwysig wrth gyflawni'r blaenoriaethau a gytunwyd iddynt yn y Strategaeth.

Y Strategaeth Ddementia Ranbarthol

Ym mis Chwefror 2021, penododd Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru Attain i weithio gyda'r partneriaid i ddatblygu strategaeth ddementia ranbarthol a model llwybr gofal ar gyfer y gwasanaethau. Yn ogystal â'r gwaith hwn, cynhaliom adolygiad o'r prosiectau dementia rhanbarthol a ariannwyd gan y Gronfa Gofal Integredig. Trwy wneud hyn, cawsom arweiniad am y gwasanaethau a ddylai barhau i gael eu hariannu ynghyd â rhyw syniad o unrhyw gynlluniau ychwanegol y dylid eu cyflwyno yn 2021/22. Un o'r blaenoriaethau a nodwyd oedd gofyn i Attain ddatblygu achos busnes ar gyfer cyflwyno cysylltydd llesiant dementia yn seiliedig ar arfer gorau a fyddai'n rôl annatod o fewn Llwybr Llesiant Dementia Gorllewin Cymru.

Dyma roi'r gwaith hwn yn ei gyd-destun:
Mae gwledydd y byd yn canolbwyntio fwyfwy ar ddementia ac effaith dementia ar systemau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae nifer yr achosion o ddementia yn cynyddu o'r naill flwyddyn i'r llall, yn bennaf am fod pobl yn byw'n hŷn, yn enwedig o fewn economïau incwm uchel.

Er mwyn esbonio ei strategaeth ddementia, ym mis Chwefror 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'Gynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Dementia 2018-2022'.
Roedd y weledigaeth ar gyfer Cymru fel a ganlyn: 'cenedl sy'n deall dementia ac sy'n cydnabod hawliau pobl â dementia, sy'n eu gwerthfawrogi ac yn eu helpu i fyw mor annibynnol ag y bo modd yn eu cymunedau'.

Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd Gwelliant Cymru Lwybr Safonau Gofal Dementia Cymru. Mae Grŵp Llywodraeth Cymru ar gyfer Goruchwylio Gweithrediad ac Effaith ym maes Dementia yn cadw golwg ar y gwaith hwn, yn unol â gofynion Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Dementia.

Mae'r ugain safon yn cael eu hystyried yn rhai dynamig a byddant yn cael eu gwerthuso'n barhaus a'u haddasu yn seiliedig ar dystiolaeth gefnogol. Maent yn perthyn i bedair thema:
Hygyrch, Ymatebol, Taith, Partneriaethau a Pherthnasoedd wedi'u hategu gan Garedigrwydd a Dealltwriaeth.

Datblygwyd y safonau gan ddefnyddio Fframwaith Cyflawni Gwelliant Cymru a rhagwelir y bydd y gwaith hwn yn canolbwyntio ar ddatblygu canllawiau ynghylch y Fframwaith Cyflawni dwy flynedd i'r rhanbarthau yng Nghymru ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill 2021 a Mawrth 2023.

Cyn rhoi'r Fframwaith ar waith, mae Attain wedi llunio'r strategaeth hon ar y cyd â chydweithwyr, pobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr ar draws gorllewin Cymru. Mae'r strategaeth lefel uchel hefyd yn darparu strwythur llywodraethu i'r rhaglen a sylfaen y gellir ei defnyddio i ariannu gwasanaethau yn unol â Fframwaith Cyflawni Gwelliant Cymru.

Ymgysylltu â'r Cyhoedd i ddatblygu Cynllun Gweithredu Dementia ar gyfer Ceredigion

Y cam allweddol nesaf ar gyfer Ceredigion fydd ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol a'r cyhoedd yn ehangach er mwyn cyfrannu at ddatblygu Cynllun Gweithredu i Geredigion.

Argymhellir cychwyn ar y gwaith ymgysylltu yn gynnar ym mis Ionawr 2023 am gyfnod o 12 wythnos. Rydym ar hyn o bryd yn y broses o gaffael gwasanaethau ymgynghori annibynnol er mwyn arwain ar y gwaith ymgysylltu a datblygu cynllun gweithredu. Ariennir yr elfen yma drwy Arian Integreiddio Lleol (Grŵp Llywio Dementia).

Bydd y gwaith yma o dan Grŵp Llywio Gofalwyr, Cymunedau ac Heneiddio'n Dda - TAW Rhaglen 3.

	Oes Asesiad Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam	**Effaith** Oes
	Crynodeb:	
Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:	**Hirdymor:**	Bydd y strategaeth yn darparu glasbrint ar gyfer datblygu cymorth a gwasanaethau Dementia at y dyfodol yng Ngheredigion.
	Cydweithio:	Mae'r Strategaeth hon yn canolbwyntio ar gydweithio â phobl ar draws yr asiantaethau a chyda chymunedau lleol ac unigolion y mae dementia wedi effeithio arnynt.
	Cynnwys:	Bydd rhanddeiliaid a phartneriaid yn rhan o'r cyfnod ymgysylltu a chynllunio
	Atal:	Mae atal yn rhan allweddol o'r Strategaeth gan fod y Strategaeth yn canolbwyntio ar alluogi pobl sy'n byw gyda dementia i fod mor annibynnol ag y bo modd yn eu cymunedau eu hunain.
	Integreiddio:	Strategaeth integredig yw hon.
Argymhelliad / Argymhellion:	1. Cymeradwyo'r strategaeth rhanbarthol a chymeradwyo'r rhaglen ymgysylltu a datblygu cynllun datblygu lleol. 2. Cyflwyno'r canfyddiadau'r ymgysylltu a'r cynllun gweithredu arfaethedig i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach cyn dychwelyd i'r Cabinet.	
Rheswm / Rhesymau dros y penderfyniad:	Galluogi'r Cyngor i barhau â datblygu cynllun gweithredu i gefnogi cyflawni'r strategaeth ranbarthol yn lleol. Datblygu darpariaeth Dementia yn unol â'r Strategaeth Llesiant a Gydol Oes	

Trosolwg a Chraffu:	Cyflwynwyd y Strategaeth Dementia Rhanbarthol i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach ar 27 Hydref 2022
Fframwaith Polisi:	Deddf Llesiant a Gwasanaethau Cymdeithasol 2014 Cymru Iachach: cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol Cymru Oed-gyfeillgar: ein strategaeth ar gyfer cymdeithas sy'n heneiddio Heneiddio'n dda yng Nghymru Fframwaith Gwaith da – Fframwaith Datblygu a Dysgu am Ddementia yng Nghymru Cynllun Gweithredu Dementia Cymru Gyfan Llwybr Gofal Safonau Gofal Dementia Cymru Gyfan
Blaenoriaethau Gorfforaethol:	Cysylltiadau i holl flaenoriaethau corfforaethol ond yn berthnasol yn benodol i Flaenoriaeth 2 – Buddsoddi yn Nyfodol Pobl a Blaenoriaeth 4 – Hyrwyddo Cydnerthedd Amgylcheddol a Chymunedol
Goblygiadau Cyllid a Chaffael:	Cafwyd hyd i ffynhonnell arian Cronfa Integreiddio Rhanbarthol (Grŵp Llywio Dementia) er mwyn caffael / comisiynu'r rhaglen ymgysylltu a datblygu cynllun gweithredu
Goblygiadau Cyfreithiol:	Gofyniad Statudol o dan Ddeddf Llesiant a Gwasanaethau Cymdeithasol 2014
Goblygiadau Staffio:	Amherthnasol
Goblygiadau Eiddo / Asedau:	Amherthnasol
Risg(iau):	Amherthnasol
Pwerau Statudol:	Amherthnasol
Papurau Cefndir:	Y Strategaeth Ddementia Ranbarthol
Atodiadau:	Amherthnasol
Swyddog Arweiniol Corfforaethol:	Donna Pritchard, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Gofal
Swyddog Adrodd:	Donna Pritchard, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Gofal
Dyddiad:	6ed Rhagfyr 2022

Cyngor Sir Ceredigion

Adroddiad i'r:	**Cabinet**
Dyddiad:	**6 Rhagfyr 2022**
Lleoliad:	**Hybrid**
Teitl:	**Adborth Y Pwyllgor Trosolwg A Chraffu Cymunedau Iachach Ynglŷn Â'r Strategaeth Ddementia Ranbarthol A Ddatblygwyd Gan Grŵp Llywio Dementia Rhanbarthol Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru**
Pwrpas yr adroddiad:	**Rhoi Adborth Y Pwyllgor Trosolwg A Chraffu Cymunedau Iachach Yn Dilyn Y Cyfarfod A Gynhaliwyd Ar 27 Hydref 2022**

Cefndir:

Yn sgil cyhoeddi nifer o ddogfennau cenedlaethol gan gynnwys yr Archwiliad Cenedlaethol o Ofal Dementia, Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Dementia 2018 – 2022, Llwybr Safonau Gofal Dementia Cymru 2021 ac yn fwy diweddar, Siarter Ysbytai sy'n Deall Dementia yng Nghymru, gwelwyd bod angen gwella gofal a phrofiad pobl sy'n byw â dementia yng ngorllewin Cymru.

Mae Partneriaeth Gofal Canolbarth Cymru yn dod â sefydliadau o'r sector statudol, y trydydd sector a'r sector annibynnol ynghyd er mwyn integreiddio a thrawsnewid iechyd, gofal a chymorth yn y rhanbarth. Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol statudol yn goruchwylio gwaith Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru. Mae'r Grŵp Llywio Dementia Rhanbarthol yn dod o dan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr o bob rhan o'r Bartneriaeth. Mae'n cynnig ffordd ar gyfer datblygu dull gweithredu rhanbarthol wrth ofalu am bobl sy'n byw gyda dementia a'u teuluoedd. Wrth ddatblygu'r Strategaeth, mae'r Grŵp hwn yn gweithio'n agos gydag ymgynghorwyr allanol o'r enw Attain, a bydd ganddo rôl allweddol wrth fwrw ymlaen â chamau nesaf y gwaith. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid drwy'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol.

Ar ôl trafod y Strategaeth a'i hystyried, cytunodd yr Aelodau i argymell bod y Cabinet yn cymeradwyo'r Strategaeth Ddementia Ranbarthol, yn amodol ar ystyried y canlynol:

1. Pwysigrwydd sicrhau bod cleifion sydd â dementia yn derbyn cymorth yn eu mamiaith.
2. Mynegwyd pryderon nad oedd gofal seibiant a chanolfannau dydd ar gael yn lleol i unigolion a theuluoedd, sy'n golygu bod pobl yn teithio ymhellach i ffwrdd ac yn treulio mwy o amser ar fysiau yn hytrach nag mewn gwasanaethau dydd lleol. Teimlai'r Aelodau bod darparu trafnidiaeth addas yn bwysig ynghyd â darparu gwasanaethau lleol lle bynnag y bo hynny'n bosibl.
3. Awgrymwyd y gellid ystyried cyfleoedd i ddefnyddio cyfleusterau cymunedol wrth ddarparu gwasanaethau lleol.

Y Cynghorydd Caryl Roberts
Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach